Prifysgol Abertawe
Swansea University

## BETH WNAETHOM NI...

"Mae Twitter yn ffordd bwysig i ni gysylltu gyda chymuned ehangach y Brifysgol, a'r gymuned anabl, i gael y wybodaeth ddiweddaraf ac i lywio arfer da, yn ogystal â hyrwyddo ein gwasanaethau i fyfyrwyr, staff a darpar-fyfyrwyr. Rydym yn gweld postio negeseuon dwyieithog ar Twitter fel arfer da sy'n gynhwysol, yn ogystal â chadw at Safonau'r Iaith Gymraeg.

Ym mis Hydref 2017, croesawodd ein neges trydar cyntaf fyfyrwyr newydd yn Saesneg ac yn Gymraeg. Ond, nid yw darllenydd sgrin yn gweithio yn dda iawn gyda negeseuon trydar dwyieithog, ac mae'n gallu cymryd dwywaith cyhyd i ddarllen y neges hyd yn oed gyda golwg! Fe wnaethom ni felly dorri lawr y broses i gamau. Rydym nawr yn danfon trydar dwywaith, un ym mhob iaith; rydym yn teilwra lluniau a disgrifiad y lluniau ar gyfer bob iaith; rydym hefyd yn un o ddefnyddwyr mwyaf o hash nodau hygyrchedd Cymraeg. Ym mis Ionawr 2019, fe wnaeth arbenigwr hygyrchedd a chynhwysiant addysg uwch di-Gymraeg ail-drydar un o'n negeseuon trydar Cymraeg, ac mi dderbyniodd dros 800 o argraffiadau!

Rydym yn llwyddiannus gan fod gennym ni staff sydd efo "Cymraeg yn hanfodol" yn eu swydd-ddisgrifiadau, ac yn eu habsenoldeb mae negeseuon trydar wedi eu cynllunio ymlaen llaw (e.e. ar gyfer diwrnodau ymwybyddiaeth cenedlaethol) yn cael eu danfon i'r gwasanaeth cyfieithu."

Canolfan Drawsgrifio Prifysgol Abertawe